



**Llwybr Cefnogaeth Rhanbarthol
ar gyfer Trais yn erbyn Merched,
Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

**BWRDD DIOGELU
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

Ebrill 2020

Llwybr Rhanbarthol at Gefnogaeth VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynlluniwyd y Llwybr Rhanbarthol hwn at Gefnogaeth mewn partneriaeth â Darparwyr Arbenigol VAWDASV ar draws y rhanbarth, i fod o gymorth i sicrhau bod y gwasanaeth yn gyson ac yn parhau i fod ar gael ac o fewn cyrraedd dinasyddion rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn y lle cyntaf, mae'r Llwybr hwn yn cydnabod bod Covid-19, a adwaenir hefyd fel argyfwng y Coronafeirws, wedi tarfu ar y gwasanaeth a ddarperir. Bwriedir i'r ddogfen hon esbonio'r llwybr clir at gymorth a chyngor VAWDASV i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol sy'n byw ac yn gweithio yn y rhanbarth.

Mae'n bwysig cydnabod bod yr holl Ddarparwyr Gwasanaethau Arbenigol yn parhau i weithredu, er bod hynny gyda llai o adnoddau a/neu adnoddau cyfyngedig. Caiff y rhan fwyaf o'r gwasanaethau eu darparu drwy weithio o bell; fodd bynnag, bydd yr holl asiantaethau yn ymateb i atgyfeiriadau drwy eu llwybrau atgyfeirio arferol.

Mynediad at Gefnogaeth

O ran mynediad at gefnogaeth, rydym yn cynnal llwybr cyson at wasanaethau drwy **Linell Gymorth Byw heb Ofn ar 0808 8010800**. Mae'r llinell gymorth hon yn agored i ferched, dynion a phobl ifanc sy'n profi unrhyw fath o Gam-drin Domestig neu Drais Rhywiol (DA/SV).

Rhydd y **Linell Gymorth Byw heb Ofn** gyngor ac arweiniad ar unwaith cyn cyfeirio at Ddarparwr Cefnogaeth Arbenigol lleol.

Darparwyr Gwasanaeth Arbenigol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

Awdurdod Lleol	Darparwr/wyr	Arbenigedd	Rhif Cyswllt	Ar gael drwy Linell Gymorth Byw heb Ofn
Gwasanaeth Rhanbarthol	Gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig - Hafan Cymru a Phobl	Cam-drin Domestig Risg Uchel	Sir Gaerfyrddin a Phowys- 01267 221194 Sir Benfro a Cheredigion- 01646 698820.	Ydy
Gwasanaeth Rhanbarthol	Llwybrau Newydd	Trais Rhywiol	Ceredigion: 01970 610124	Ydy



			<p>Sir Gaerfyrddin: 01267 235464</p> <p>Powys: 01267 226166</p> <p>Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) y tu allan i oriau (pob ardal) 07423 437020</p>	
Gwasanaeth Cenedlaethol	BAWSO	VAWDASV BAME	0800 731 8147 (llinell gymorth 24 awr)	
Powys	Canolfan Argyfwng Teuluol Trefaldwyn	Cam-drin Domestig	01686 629114	Ydy
	Gwasanaeth Trais Domestig Calan	Cam-drin Domestig	01874 625146	Ydy
Ceredigion	Gwasanaeth Trais Domestig Gorllewin Cymru	Cam-drin Domestig	01970 625585 a/neu 01239 615385	Ydy
Sir Gaerfyrddin	Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin	Cam-drin Domestig	01267238410/234 725	Ydy
	Gwasanaeth Cam-drin Domestig Trothwy	Cam-drin Domestig	01554 752422	Ydy
	Gwasanaeth Trais Domestig Calan	Cam-drin Domestig	01269 597474	Ydy
	Dewis	Cam-drin Domestig i bobl dros 60 oed	Atgyfeiriad drwy asiantaeth statudol e.e. diogelu, yr heddlu, iechyd	Nac ydy
Sir Benfro	Pobl	Cam-drin Domestig	01646 698820	Ydy



	Hafan Cymru	Cam-drin Domestig – Lloches yn unig	0808 80 10 800	Ydy
--	-------------	--	----------------	-----

Lloches

Bydd darpariaeth lloches, a faint o lety sydd ar gael mewn lloches, yn amrywio, yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol ym mhob lloches ar y pryd ac amgylchiadau'r unigolyn sy'n ceisio llety. Fel mewn amgylchiadau arferol, caiff pob cais ei ystyried fesul achos, gan gymryd materion i ystyriaeth megis: argaeledd presennol, y cyfleusterau sydd eu hangen, amgylchiadau personol a diogelwch y person(au) sy'n ceisio llety ac amgylchiadau a diogelwch y preswylwyr sydd yno eisoes a/neu eu plant.

Mae gan bob Awdurdod Lleol fesurau a chynlluniau penodol yn eu lle ynghylch stoc llety brys ar gyfer ateb y galw am lety mewn lloches yn ystod yr amser yma.

MARAC a Thrafodaethau Dyddiol

Lle bydd staff wedi cael eu hyfforddi (yn cynnwys staff y tu allan i'r gwasanaethau arbenigol) rhaid iddynt ddefnyddio Rhestr Wirio Adnabod Risg DASH a ffurflen atgyfeirio MARAC pan fydd yn briodol, yn unol â'r broses arferol.

Mae Heddlu Dyfed Powys (DPP) yn adolygu'r broses drafod ddyddiol mewn ymateb i lai o gapasiti ymhlith y staff yn yr holl asiantaethau – mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r trefniadau hyn i ddilyn yn fuan.

Darpariaeth Larwm Ddiogelwch Personol

Mae gan Heddlu Dyfed Powys gyflenwad o larymau personol a larymau Skyguard ar gael i'w defnyddio. Mae Heddlu Dyfed Powys a'r Gwasanaethau Arbenigol wedi cytuno ar broses i reoli'r larymau hyn a'u dosbarthu'n fuan i unigolion sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd eu hangen.